CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced

324/51

# ASTUDIAETHAU BUSNES

## BS4

A.M. DYDD IAU, 15 Mehefin 2006

(1¼ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **ddau** gwestiwn yn unig.

**Ni** ddylech ateb dau gwestiwn o'r un adran.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr yn ôl ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn yn unig*. **Ni** *ddylech ateb dau gwestiwn o'r un adran*.

## ADRAN 1

Amcanion yn yr Amgylchedd Busnes

**1.** *(a)* Eglurwch y rhesymau pam y gallai grŵp o wledydd benderfynu mabwysiadu arian cyfred sengl. [8]

*(b)* "I'r rhan fwyaf o fusnesau mae manteision arian cyfred sengl yn debygol o orbwyso'r anfanteision." Trafodwch. [12]

**2.** *(a)* Eglurwch y ffactorau *PEST* y byddai gwneuthurwr teganau yn debygol o'u hystyried cyn buddsoddi mewn ffatri newydd. [8]

*(b)* "Y gallu i addasu yn ôl newid yn yr amgylchedd allanol yw'r allwedd i lwyddiant mewn busnes." Trafodwch. [12]

## ADRAN 2

Marchnata

**3.** *(a)* Eglurwch y strategaethau marchnata y gallai busnes sy'n gweithredu mewn marchnad **dirlawn** *(saturated)* eu cyflawni *(implement)*. [8]

*(b)* "I'r rhan fwyaf o fusnesau mae'r risgiau sydd ynghlwm wrth amrywiaethu *(diversification)* yn debygol o orbwyso'r buddion *(benefits)*." Trafodwch. [12]

**4.** *(a)* Eglurwch y berthynas rhwng yr adran farchnata a'r adrannau swyddogaethol eraill mewn busnes mawr. [8]

*(b)* "Marchnata yw swyddogaeth bwysicaf unrhyw fusnes." Trafodwch. [12]

## ADRAN 3

Cyfrifydda a Chyllid

**5.** *(a)* Eglurwch y gwahaniaeth rhwng costiad llawn a chostiad ffiniol *(marginal costing)* mewn busnes gweithgynhyrchu. [8]

*(b)* "Yr allwedd i broffidioldeb yw rheolaeth dynn *(close)* ar gostau." Trafodwch. [12]

**6.** *(a)* Eglurwch ystyr ac arwyddocâd Adenillion ar Asedau Net *(RONA)*. [8]

*(b)* Gwerthuswch ddefnyddioldeb cymarebau wrth ragfynegi llwyddiant tymor-hir busnes. [12]

## ADRAN 4

Pobl mewn Cyfundrefnau

**7.** *(a)* Gan ddefnyddio enghreifftiau, eglurwch pam mae rhai cyfundrefnau yn fwy tebygol o reoli *(control)* eu gweithwyr ond mae eraill yn rhoi grym *(empower)* iddynt. [8]

*(b)* Aseswch y farn bod cyfundrefnau sy'n rhoi grym i'w gweithwyr yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus na chyfundrefnau sy'n ceisio eu rheoli. [12]

**8.** *(a)* Eglurwch ystyr *arferion gwaith hyblyg*. [8]

*(b)* "Mae cyflogwyr a gweithwyr yn cael budd i'r un graddau o arferion gwaith hyblyg." Trafodwch. [12]

## ADRAN 5

Rheoli Gweithrediadau

**9.** *(a)* Eglurwch ystyr gweithgynhyrchu Mewn Union Bryd *(JIT)* a sut y gall fod o fudd i'r busnesau hynny sy'n ei fabwysiadu. [8]

*(b)* "Mae llawer o ffactorau eraill sy'n bwysicach na Mewn Union Bryd wrth i fusnes gweithgynhyrchu geisio gwella ei effeithlonrwydd gweithrediadol." Trafodwch. [12]

**10.** *(a)* Eglurwch y ffactorau y gallai cwmni sy'n gweithgynhyrchu cemegau ar raddfa fawr eu hystyried wrth benderfynu ble i leoli ffatri newydd. [8]

*(b)* "Nid yw lleoliad yn ffactor pwysig bellach mewn llwyddiant busnes." Trafodwch. [12]